OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1182

## Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

## RHAN 4

### Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi

**Gwneud apêl**

**14.**—(1) Rhaid i hysbysiad apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi—

(a) bod yn ysgrifenedig, ar ffurflen a gafwyd oddi wrth Weinidogion Cymru,

(b) datgan seiliau'r apêl,

(c) datgan y ffeithiau y bydd yr apelydd yn dibynnu arnynt i ategu pob un o'r seiliau hynny ac unrhyw fanylion eraill am yr achos y mae'r apelydd yn bwriadu ei gyflwyno mewn perthynas â'r apêl, a

(d) cynnwys enw, cyfeiriad (gan gynnwys unrhyw gyfeiriad e-bost) a rhif ffôn yr apelydd ac unrhyw asiant sy'n gweithredu ar ran yr apelydd.

(2) Rhaid anfon yr hysbysiad at Weinidogion Cymru gyda'r canlynol—

(a) datganiad ynghylch pa un a yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei hymdrin drwy sylwadau ysgrifenedig, drwy wrandawiad neu drwy ymchwiliad,

(b) copi o'r hysbysiad gorfodi, ac

(c) copi o unrhyw hysbysiad stop neu hysbysiad stop dros dro cysylltiedig.

(3) Rhaid i ddatblygwr sy'n anfon hysbysiad apêl at Weinidogion Cymru, ar yr un pryd, anfon copi o'r hysbysiad apêl a'r dogfennau sy'n mynd gyda'r hysbysiad apêl i'r corff cymeradwyo.

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "dogfennau sy'n mynd gyda" yw'r dogfennau a grybwyllir ym mharagraff (2).

(5) Caniateir i unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall y mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'w hanfon neu i'w darparu gael eu hanfon drwy'r post neu gyfathrebiad electronig.